**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**
O dan baragraffau 2 i 2C o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae safleoedd annomestig i'w prisio at ddibenion ardrethu drwy gyfeirio at y rhent y byddai tenant yn ei dalu.

O dan baragraff 3 o Atodlen 6 gall y Cynulliad, drwy orchymyn, bennu dull gwahanol o brisio ar gyfer yr hereditamentau hynny a gaiff ei ragnodi yn y Gorchymyn.

Mae'r gorchymyn hwn yn pennu dull gwahanol o brisio dociau a harbyrau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, y mae rhai sylwadau cyffredinol y bernir y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**
Yn y trydydd paragraff dylai "Rheoliadau" fod yn "Gorchymyn".

Byddai'r paragraff olaf yn gliriach pe bai'r geiriau ar ôl "1989" wedi'u hepgor.

**Erthygl 1 – Y Pennawd**
Er mwyn adlewyrchu ym mha drefn y mae testun yr erthygl yn ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn y pennawd, dylai "cymhwyso" ymddangos yn gyntaf.

**Erthygl 2 – "balans wedi'i addasu a "balans perthnasol"**
Bernir y gellid bod wedi symleiddio'r diffiniadau hyn drwy hepgor –

"100 y cant o".

**Erthygl 2 – "gwariant wedi'i addasu" ac "incwm wedi'i addasu"**
Cyfeirir at "gynnyrch" cyfrifiad rhannu. Er hynny, bernir na all "cynnyrch" fod yn gyfeiriad cywir

ond at ganlyniad cyfrifiad lluosi.

Ac wrth edrych hefyd ar ddiffiniad "gwariant wedi'i addasu" nid yw'n eglur ar unwaith fod yr esboniad ar y termau P ac Y i'w gael ar ôl y diffiniad o "incwm wedi'i addasu". Mae hyn yn anos fyth yn y testun Cymraeg lle caiff y ddau ddiffiniad eu gwahanu gan ddiffiniad ychwanegol.

Yn ychwanegol, nid yw'r esboniad ar y term Y yn un hawdd i'w ddilyn. Cyfeirir at Y fel –

> "y ffigur a gyfrifir at ddibenion paragraff 5(5) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988".

Ond ni ddeellir bod hyn yn gyfeiriad at yr union ffigur a gyfrifir o dan Ddeddf 1988 – yn wir, ymddengys nad oes angen gwneud cyfrifiad o dan Ddeddf 1988 ar gyfer rhai blynyddoedd. Bernir bod Y i'w gyfrifo'n syml yn yr un modd â'r ffigur ym mharagraff 5(5) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Gellid bod wedi mynegi hyn yn llawer byrrach a chliriach, a hynny heb gyfeirio at Ddeddf 1988 o gwbl mae'n debyg.

**Erthygl 2 – "gwariant perthnasol" ac "incwm perthnasol"**
Gellid bod wedi osgoi'r cymhlethdod o gael llythrennau ar is-baragraffau ym mharagraff (ii) drwy ailadrodd y geiriau cyflwyno byr ym mharagraff (ii) ym mhob un o'r is-baragraffau a fyddai wedyn yn baragraffau â rhif yn y brif drefn.

**Erthygl 2 – "blwyddyn flaenorol berthnasol"**
Efallai y byddai wedi bod yn gliriach pe bai'r diffiniad hwn wedi cael ei gofnod ei hun yn nhrefn yr wyddor yn hytrach na chael ei gynnwys yn y diffiniad o'r gair "blwyddyn".

**Erthygl 2 – "incwm perthnasol"**
Er mwyn cydymffurfio â'r geiriau agoriadol yn (ii), dylai paragraffau (b), (c) ac (ch) ddechrau gydag "o", fel ym mharagraff (a).

**Erthygl 2 – "incwm wedi'i addasu"**
Bernir y dylai'r cyflwyniad i'r esboniad o'r termau P ac Y ddechrau gyda "lle" yn hytrach nag "a".

**Erthygl 3(1)**
Mae'r geiriau cyflwyno –

> "…a ddisgrifir ym mharagraffau (2) i (4):"

yn briodol mewn perthynas ag is-baragraff (a) ond nid yw'n darllen yn iawn mewn perthynas ag is-baragraff (b).

**Erthygl 3(1)(b)**

Nid yw'n eglur ar unwaith fod y term "rhestr berthnasol" a diffinnir yn cael ei ddefnyddio yn y gorchymyn mewn gwirionedd.

**Erthygl 3(2)(b)**
Nid yw'n glir beth a olygir gan y cyfeiriad at "ddod â" nwyddau.

Yn ychwanegol, yn y testun Cymraeg, bernir y gellid mynegi'r cysyniad o "carrying on" (hy. running) ymgymeriad harbwr yn well gan "rhedeg" yn hytrach na "cyflawni".

**Erthygl 3(4) – Troednodyn (c)**
Byddai wedi bod o gymorth pe bai'r troednodyn wedi nodi'r adran benodol lle ceir y diffiniad.

**Erthygl 4(2)**
Mae'r geiriau cyflwyno –

"... of the undertaking for -"

yn briodol mewn perthynas ag is-baragraff (i) a (iii) ond nid yw'n darllen yn iawn mewn perthynas ag is-baragraff (ii).

**Erthygl 4(2)**
Nid yw'n ymddangos bod y darpariaethau hyn yn caniatáu ar gyfer sefyllfa lle dechreuodd ymgymeriad doc neu harbwr fasnachu ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 1997-8. Er hynny, deellir bod hyn yn cyd-fynd â darpariaethau Erthygl 3(2), ar y sail y byddai darpariaethau erthygl 3(2) yn eithrio unrhyw ymgymeriad nad oedd wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 1998 o gymhwysiad y gorchymyn.

**Erthygl 4(4)**
Yn y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ni phennwyd y ffigur canrannol cyntaf, a nodwyd ef yn unig â marc cwestiwn. Ond deellir bod hyn wedi'i gywiro ar y copi sydd wedi'i wneud.

Dylid cael atalnod yn y testun Saesneg ar ôl "paragraph (3)" fel a geir yn y testun Cymraeg .

**Erthygl 5(2)**
Dylid bod wedi rhoi cyfeiriadau troednodiadau (e) (testun Cymraeg) ac (g) (testun Saesneg) ar ôl "1988". Byddai hyn yn gyson â'r arfer a ddefnyddiwyd yng ngweddill y Gorchymyn hwn a byddai'n osgoi unrhyw risg y gellid camgymryd y troednodyn am gyfeiriad at baragraff mewn adran benodol o'r Ddeddf.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

19 Ebrill 2000

Cyf: LAD 01-01-100